**Adroddiad I:** Y Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Hydref 2013

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Cynghoryrdd Bobby Feeley
Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant
Sally Ellis, Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles

**Awduron yr Adroddiad:** Swyddog Cynllunio a Datblygu Gwasanaeth Cefnogi Pobl

**Teitl:** Eithriad Tendr GIFT

---

**1. Beth yw testun yr adroddiad?**

Y cytundeb a ariennir gan Cefnogi Pobl gyda'r Wallich ar gyfer prosiect GIFT (Tîm Cymorth Hyblyg Generig Dwys).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae angen penderfyniad ar eithrio contract GIFT o'r gofyniad i dendro.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Cymeradwyo eithriad tendr GIFT a dyfarnu'r contract i'r Wallich, y darparwr presennol.

**4. Manylion yr adroddiad**

- Mae'r prosiect yn cynnig cymorth sy'n gysylltiedig â thai i isafswm o 62 o bobl agored i niwed sy'n ddigartref ar hyn o bryd neu mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n byw mewn llety dros dro.
- Mae'r Wallich wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn llwyddiannus ers mis Medi 2010.
- Tendrwyd y prosiect yn 2010. Derbyniwyd a gwerthuswyd tri chais. Dyfarnwyd y contract i'r Wallich.
- Cynhaliodd y Tîm Cefnogi Pobl adolygiad gwasanaeth llawn yn Ebrill a Mai 2013 a ganfu fod y prosiect wedi cynhyrchu deilliannau da, ei fod yn plethu'n dda â nodau strategol lleol a chenedlaethol a'i fod yn llwyddo i sicrhau cyfranogiad, diogelu a galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth.

Caiff gwasanaeth GIFT ei ddosbarthu'n wasanaeth Rhan B yn unol â deddfwriaeth gaffael yr UE a'r DU. Mae'r contract newydd arfaethedig yn cynrychioli parhad eglur o'r gwasanaethau sydd eu hangen o dan y contract presennol.

Mae'r Fframwaith Eithrio Tendr Rhan B sydd ynghlwm (gweler Atodiad 1) yn dangos y **gellir** yn rhesymol cyfiawnhau eithrio'r gwasanaethau hyn rhag tendro a dyfarnu contract newydd i'r Wallich yn dilyn ystyriaeth gytbwys o'r meini prawf perthnasol a restrir yn y Rheol Gweithdrefn Contract 10.1 (m):

i. Mae tendro'r contract yn annhebygol o sicrhau gwelliannau sylweddol mewn gwerth am arian ✓
ii. Mae manyleb y contract newydd yn wahanol i un y contract presennol ✗
iii. Nid yw telerau ac amodau'r contract yn gwahaniaethu'n sylweddol i rai'r contract presennol ✓
iv. Mae gwerth blynyddol cyfatebol y contract ar gyfer y gofynion ychydig yn ✗

wahanol i un y contract presennol

v. Tendrwyd y contract hwn yn flaenorol yn 2010 ✓
vi. Nid oes contract blaenorol ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi cael ei eithrio rhag tendro ✓
vii. Cafodd perfformiad y Wallich yn cyflenwi prosiect GIFT ei fonitro a'i asesu'n well na boddhaol. ✓
viii. Cafodd ansawdd gwasanaethau'r Wallich eu monitro a'u hasesu'n well na boddhaol ✓
ix. Cytunwyd ar well gwerth am arian o safbwynt pris y contract gyda'r darparwr presennol. ✓
x. Nid yw'r gwasanaethau sydd eu hangen yn cael eu cyflenwi mewn llety penodol. ✗
xi. Nid yw'r tîm Cefnogi Pobl yn ymwybodol o unrhyw arwyddion y byddai tendro'r gwasanaeth neu newid darparwr yn achosi trallod sylweddol i'r defnyddwyr gwasanaeth i'r graddau y byddai'r deilliannau llwyddiannus yn cael eu gwrthdroi neu eu tanseilio. ✗
xii. Ni chanfuwyd unrhyw ystyriaethau dilys neu berthnasol eraill yn gysylltiedig â'r contract hwn yn y cyd-destun hwn.

Gwerth blynyddol y contract yw £238,828 ac uchafswm hyd y contract yw 5 mlynedd, felly cyfanswm yr uchafswm dyraniad cyllid fydd £1,194,140 ar gyfer y contract llawn.

Yn unol â CPR 10.2, gall y Cabinet ganiatáu eithriadau rhag tendro ar sail un o'r rhesymau a restrir yn CPR 10.1 os yw gwerth y contract dros £1,000,000.(1 miliwn)

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-2017 yn y meysydd canlynol:-

- Mae pobl agored i niwed yn cael eu gwarchod ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd
- Sicrhau mynediad i dai o ansawdd da

Mae'r prosiect hwn yn chwarae rhan allweddol mewn atal digartrefedd i bobl agored i niwed.

**6. Faint bydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**Goblygiadau Cost:** Dyrannwyd £238,828 y flwyddyn i'r prosiect hwn o gyllid Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Sir Ddinbych.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Adnabuwyd y prosiect fel un strategol berthnasol ac fe'i cadarnhawyd yn flaenoriaeth yn Strategaeth Cefnogi Pobl 2011-2014 ac yng Nghynllun Gwariant Cefnogi Pobl 2013-2014.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'r cynigion yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol ac mae'r eithriad y gofynnir amdano yn ddilys yn yr achos hwn. Rhaid i gost y prosiect gael ei gynnwys o fewn y cyllid sydd ar gael.

**9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- **Y risgiau sy’n gysylltiedig â pheidio â chytuno â’r argymhelliad/argymhellion**:
  Y contract yn mynd allan i dendr. Gallai hyn fod yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau’r Cyngor os na cheir gwelliant mewn gwerth am arian yn fwy na’r hyn a gynigir gan yr ailfodelu gwasanaeth arfaethedig.
- **Y risgiau sy’n gysylltiedig â chytuno â’r argymhelliad/argymhellion**
  Byddai eithrio o’r tendr yn ildio’r cyfle i geisio cael gwell gwerth am arian gan ddarparwr arall. Fodd bynnag dylid ystyried hyn yn erbyn y gost i’r Cyngor o gynnal y tendr a’r tarfu posibl ar y gwasanaeth.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol (1972); Rheoliad Ariannol 31 (Rheolau Gweithdrefn Contract); CPR 10.1